Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar wasanaethau addysg yng

# Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
**Y Ganolfan Ddinesig**
**Stryd y Castell**
**Merthyr Tudful**
**CF47 8AN**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyfanswm poblogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw tua 60,000. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 26 o ysgolion prif ffrwd. Mae 22 ysgol gynradd, yn cynnwys dwy ysgol sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae pedair ysgol uwchradd, ac nid yw'r un o'r rhain yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn 2021, mae 448 o ddisgyblion yn mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r awdurdod lleol. Yn ychwanegol, mae un ysgol arbennig ac un uned cyfeirio disgyblion. Mae Merthyr Tudful yn un o bum awdurdod lleol yng Nghonsortiwm Canolbarth y De ar gyfer gwella ysgolion.

Dechreuodd y prif weithredwr yn ei swydd ym mis Mehefin 2021. Secondiwyd y cyfarwyddwr addysg i ddechrau o Rondda Cynon Taf i rôl y prif swyddog ar gyfer dysgu ym mis Hydref 2017, a gwnaed y swydd hon yn barhaol ym mis Ebrill 2019. Mae rôl y prif swyddog wedi newid i gyfarwyddwr addysg yn ddiweddar. Mae arweinydd y Cyngor wedi bod yn ei rôl er mis Ionawr 2021. Yr arweinydd yw'r deiliad portffolio ar gyfer gwasanaethau addysg hefyd, gan ymgymryd â'r rôl hon er 2017.

Yn 2021-2022, tua £62 miliwn yw gwariant refeniw wedi'i gyllidebu yr awdurdod lleol. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yn 2021-2022 yw £4,759, sy'n agos at y cyfartaledd yng Nghymru.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr awdurdod lleol yn 2012. Roedd angen mesurau arbennig ar yr awdurdod lleol, ac fe'i tynnwyd o'r categori hwn o weithgarwch dilynol ar ôl ymweliad monitro yn 2016.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth ystyried canlyniadau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc ym Merthyr Tudful wedi'i nodi isod:

- Dros gyfartaledd o dair blynedd, mae 22% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 20.4%.
- Mae 7% o ddisgyblion sy'n bump oed ac yn hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru, sef 16%.
- Mae 9% o ddisgyblion sy'n bump oed ac yn hŷn o leiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 12%.
- Mae gan 21% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 20%.
- Roedd 150 o blant i bob 10,000 yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn 2021, sef yr ail gyfradd uchaf yng Nghymru.

## Crynodeb

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer addysg ym Merthyr Tudful, ac fe gaiff hyn ei mynegi'n dda yn y cynllun corfforaethol a strategaeth bum mlynedd y gyfarwyddiaeth addysg, sef 'Codi Dyheadau, Codi Safonau'. Mae'r awdurdod lleol wedi cynyddu a diogelu ei gyllideb addysg ar adeg pan mae pwysau cyllidebol ar draws yr awdurdod, ac, ar gyfer 2021-2022, cynyddodd ei gyllideb addysg uwchlaw cyfartaledd Cymru.

Yn 2019, cydnabu'r awdurdod lleol fod angen cryfhau gwasanaethau addysg, ac ers hynny, mae wedi elwa ar gefnogaeth gan Fwrdd Gwella a Sicrwydd Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd i ddechrau ar gais yr awdurdod i gefnogi arweinyddiaeth a llywodraethu corfforaethol. Mae'r cyfarwyddwr addysg wedi meithrin perthnasoedd gweithio da gydag arweinwyr ysgolion a phartneriaid gwella yn y consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol, Consortiwm Canolbarth y De (CCD). Gosododd y newid diwylliannol hwn y sylfaen ar gyfer ymagwedd gydweithredol at wella gwasanaethau addysg. Penodwyd dau bennaeth gwasanaeth newydd i'r gyfarwyddiaeth addysg yn 2021, ac mae'r prif swyddog ar gyfer dysgu, ynghyd â phrif swyddogion eraill, wedi cael eu huwchraddio i rôl cyfarwyddwr yn ddiweddar, yn unol â gweledigaeth strategol yr awdurdod lleol. Mae'n rhy gynnar i werthuso'n llawn effaith y newid diwylliannol hwn ar ddysgwyr a chapasiti cynyddol gwasanaethau addysg.

At ei gilydd, mae gan uwch arweinwyr yn yr awdurdod lleol farn realistig am ansawdd ei wasanaethau addysg, ac yn cydnabod meysydd ble mae angen i wasanaethau wella, yn cynnwys y rhan fwyaf o'r rhai a amlygwyd yn yr adroddiad arolygu hwn. Fodd bynnag, mae anghysondeb yn ansawdd gwaith hunanwerthuso a chynllunio gwelliant gyda gwasanaethau a thimau addysg. Mae ansawdd craffu ar wasanaethau addysg wedi bod yn rhy wan am flynyddoedd lawer.

Yn y tair blynedd cyn pandemig COVID-19, arolygom ddeg ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd. Barnom fod safonau'n rhagorol mewn dwy ysgol, yn dda mewn chwe ysgol ac yn ddigonol mewn pedair ysgol. At ei gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn debyg i ganfyddiadau cenedlaethol yn ystod yr un cyfnod. Gosodwyd un ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd yng nghategori gweithgarwch dilynol adolygu gan Estyn. Bu gwelliant yn y ddwy ysgol hyn, ac maent wedi cael eu tynnu o weithgarwch dilynol.

At ei gilydd, roedd safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn y tair blynedd cyn y pandemig yn cyd-fynd â chyfartaleddau cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd safonau cyffredinol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn y tair blynedd cyn y pandemig yn isel. Yn ystod yr un cyfnod, y gyfradd presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd oedd yr isaf yng Nghymru, ac roedd lefelau absenoldeb parhaus yn hynod uchel mewn ysgolion uwchradd.

Mae CCD wedi neilltuo tîm mwy effeithiol a chyson o bartneriaid gwella i ysgolion Merthyr Tudful yn y blynyddoedd diwethaf. Ochr yn ochr â pherthnasoedd gweithio gwell, mae hyn wedi golygu bod ysgolion yn ymgysylltu'n fwy effeithiol â gwaith gwella, sydd wedi cael ei deilwra'n fwy i weddu i anghenion unigol ysgolion. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda CCD i nodi ysgolion sy'n achosi pryder, ac fel arfer yn darparu cymorth amserol a buddiol i'r ysgolion hyn wella.

Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n dda gydag ystod eang o bartneriaid i leihau effaith tlodi ac anfantais ar ddysgu disgyblion. Yn sgil cryfder y gweithio mewn partneriaeth, galluogwyd yr awdurdod lleol i gyflwyno rhaglen ddifyr a llwyddiannus o weithgareddau yn 2021, sef 'Haf o Hwyl', a gynorthwyodd ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn arbennig. Mae gwaith partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol, darparwyr y blynyddoedd cynnar, ysgolion cynradd a phartneriaid eraill yn arbennig o gryf yn cefnogi datblygiad medrau cynnar plant.

Trwy gydol pandemig COVID-19, cynorthwyodd arweinwyr addysg yr ysgolion yn bwrpasol, gan ddarparu cymorth cryf ar gyfer disgyblion bregus a'r rhai a oedd yn ei chael yn anodd ymgysylltu â dysgu trwy'r cyfnod y darparwyd dysgu o bell. Mae gwaith yr awdurdod lleol yn ystod y pandemig wedi cryfhau perthnasoedd gyda'r gymuned ac wedi rhoi dealltwriaeth well i swyddogion yn y gwasanaeth addysg o'r heriau sy'n wynebu dysgwyr a'u teuluoedd. Mae hyn yn helpu sicrhau bod cymorth ac ymyrraeth briodol yn cael eu darparu ar gyfer pobl ifanc yn y sir.

Rhoddir blaenoriaeth gorfforaethol uchel i ddiogelu'r holl blant a phobl ifanc, ac ystyrir bod gan bawb gyfrifoldeb am hyn. Mae swyddogion, yn enwedig y rheolwr diogelu arweiniol ar gyfer addysg, yn darparu lefel uchel o gymorth ac arweiniad i ysgolion.

Ar draws gwasanaethau, mae gan swyddogion yr awdurdod lleol drosolwg cynhwysfawr o anghenion dysgwyr bregus a'u teuluoedd. Mae gan yr awdurdod lleol drefniadau addas ar waith gydag ysgolion i gydlynu gwaith gwahanol wasanaethau i gynorthwyo dysgwyr bregus yn dda.

Mae'r awdurdod lleol yn trefnu ystod o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r gwasanaethau cymorth a ddarperir gan yr awdurdod lleol i gefnogi anghenion y disgyblion hyn yn dda, ym marn ysgolion. Fodd bynnag, mae nifer uchel o ddisgyblion nad ydynt yn cael addysg amser llawn am gyfnodau amser estynedig. Nid yw'r awdurdod lleol yn monitro'r defnydd o amserlenni llai a'u heffaith ar gynnydd disgyblion yn ddigon agos. Ni all yr awdurdod lleol roi sicrwydd llawn fod y defnydd estynedig o amserlenni llai yn briodol ar gyfer y disgyblion dan sylw.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi gwerth mawr ar gyfraniad darpariaeth mynediad targedig ac agored gwaith ieuenctid i'w bobl ifanc. Mae'r awdurdod yn gwario mwy na'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ar wasanaethau gwaith ieuenctid y pen o'r boblogaeth yn gyson. Mae gweithwyr ieuenctid yn cefnogi addysg, iechyd a lles pobl ifanc, ac mae ansawdd y cymorth hwn yn aml yn uchel. Mewn lleoliadau addysg ffurfiol, mae gweithwyr ieuenctid yn cyflwyno rhaglenni sy'n galluogi disgyblion targedig i ennill cymwysterau ac yn cynorthwyo'r rhan fwyaf ohonynt i symud ymlaen yn llwyddiannus i'r cam nesaf mewn addysg neu gyflogaeth. Mae safon y gwaith ieuenctid mynediad agored yn dda iawn. Mae'r awdurdod lleol yn gwerthfawrogi llais pobl ifanc yn fawr, ac yn rhoi cyfleoedd sylweddol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ar lefelau gwasanaeth a lefelau strategol.

## Argymhellion

A1 Cryfhau prosesau i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn camau gweithredu mewn cynlluniau addysg

A2 Gwella ansawdd craffu ar wasanaethau addysg

A3 Cryfhau goruchwylio effaith y ddarpariaeth ar les a safonau ar gyfer dysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, a sicrhau nad yw'r dysgwyr hyn yn cael eu rhoi dan anfantais gan ddefnydd estynedig o ddarpariaeth addysg ran-amser

A4 Sicrhau bod darpariaeth ar gyfer addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn bodloni anghenion disgyblion Merthyr Tudful yn y dyfodol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau o fewn tri mis o gyhoeddi'r adroddiad arolygu.

Byddwn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith o ran gwasanaethau gwaith ieuenctid, i'w lledaenu ar ein gwefan.

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau

Ni allwn ddarparu gwerthusiad llawn o ddeilliannau. Mae hyn o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19, a achosodd atal arolygiadau o ysgolion a'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill er mis Mawrth 2020. Mae hefyd o ganlyniad i'r diffyg data am ddeilliannau y gellir ei gymharu dros gyfnod oherwydd achosodd y pandemig newidiadau i'r ffordd y dyfarnwyd cymwysterau, ac effeithiodd ar y rhan fwyaf o'r data arall rydym yn ei ystyried wrth wneud gwerthusiadau, fel presenoldeb ysgol, gwaharddiadau ysgol a chyrchfannau dysgwyr ôl-16.

Mae unrhyw werthusiadau sy'n dilyn yn darparu cyd-destun trwy adrodd ar ddeilliannau cyn y pandemig neu'n ymwneud â deilliannau mwy diweddar ble mae sail y dystiolaeth yn ddilys a dibynadwy.

Rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2020, arolygwyd deg ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd gennym. Barnom fod safonau'n rhagorol mewn dwy ysgol, yn dda mewn chwe ysgol, ac yn ddigonol mewn pedair ysgol. Mae'r canfyddiadau hyn yn debyg ar y cyfan i ganfyddiadau cenedlaethol yn ystod yr un cyfnod. Ni osodwyd unrhyw un o'r 12 ysgol a arolygwyd mewn categori gweithgarwch dilynol statudol. Gosodwyd un ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd yn y categori gweithgarwch dilynol adolygu gan Estyn. Llwyddodd y ddwy ysgol hyn i wella, ac maent wedi cael eu tynnu o weithgarwch dilynol.

Roedd safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn y tair blynedd cyn y pandemig yn debyg i gyfartaleddau cenedlaethol, ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd safonau cyffredinol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn y tair blynedd cyn y pandemig yn isel.

Yn yr arolygiadau ysgolion rhwng 2017 a 2019, cafodd y rhan fwyaf o ysgolion farn da neu ragorol am les ac agweddau at ddysgu, ac ni farnwyd bod yr un ysgol ym Merthyr Tudful yn anfoddhaol. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Rhwng 2017 a 2019, y gyfradd presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd oedd yr isaf yng Nghymru, ac roedd lefelau absenoldeb parhaus yn hynod uchel mewn ysgolion uwchradd.

Mae lles plant a phobl ifanc wedi elwa ar gymorth gan yr awdurdod lleol yn ystod y pandemig. Er enghraifft, trwy weithio gyda sefydliadau partner, ymgysylltodd yr awdurdod yn llwyddiannus â niferoedd mawr o blant a phobl ifanc yn eu rhaglen 'Haf o Hwyl' yn 2021. Bu cannoedd o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, chwarae, diwylliannol a gweithgareddau i'r teulu. Fel rhan o'r gweithgareddau hyn, aeth rhai teuluoedd i draeth am y tro cyntaf erioed. Roedd adborth gan blant, pobl ifanc a'u rheini yn gadarnhaol ynglŷn â'r cymorth ar gyfer eu lles trwy'r pandemig.

Mae plant a phobl ifanc yn cyfrannu at wneud penderfyniadau strategol ym Merthyr Tudful, er enghraifft trwy'r cabinet ieuenctid. Mae'n amlwg fod aelodau'r grŵp hwn yn

teimlo bod ganddynt lais ac yn ei ddefnyddio i geisio dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a mynd i'r afael â materion sy'n bwysig iddyn nhw, yn cynnwys trwy eu cynrychiolaeth ar y Panel Partneriaeth Addysg. Arweiniodd y bobl ifanc ar ddatblygu fersiwn person ifanc o strategaeth 'Codi Dyheadau, Codi Safonau' yr awdurdod lleol.

## Gwasanaethau addysg

O dan Faes Arolygu 2, mae Estyn yn gosod cwestiynau arolygu lleol sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol. Mae cwestiynau arolygu lleol yn canolbwyntio ar wasanaethau addysg sy'n ymwneud â blaenoriaethau strategol presennol yr awdurdod lleol neu'n deillio o wybodaeth sydd gan Estyn am wasanaethau addysg yn yr awdurdod lleol.

### Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'r consortiwm rhanbarthol i sicrhau bod strategaethau gwella ysgolion yn cael eu targedu i fodloni anghenion unigol ysgolion?

Cyn y pandemig, nododd uwch arweinwyr addysg yn yr awdurdod lleol fod angen sicrhau cymorth gwell i wella ar gyfer ei ysgolion. Helpodd yr hunanfyfyrio gonest hwn yr awdurdod i wneud newidiadau i'w arferion a'i ffyrdd o weithio. Ers hynny, mae perthnasoedd gweithio wedi gwella rhwng uwch arweinwyr addysg, arweinwyr ysgolion a phartneriaid gwella o'r consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol, sef Consortiwm Canolbarth y De (CCD). Ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol eraill, gweithiodd yr awdurdod lleol gydag arweinwyr ysgolion i ddatblygu ei strategaeth 'Codi Dyheadau, Codi Safonau'. Er ei bod yn ddyddiau cynnar o ran gweithredu'r gwaith hwn, mae'n dechrau dylanwadu'n gadarnhaol ar arweinyddiaeth a darpariaeth mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl gwerthuso'n llawn effaith newid ar gynnydd addysgol, lles a deilliannau dysgwyr ar draws yr awdurdod lleol ar hyn o bryd.

Mae'r awdurdod lleol, partneriaid gwella CCD ac ysgolion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn prosesau gwella ysgolion. Mae ysgolion yn ymgysylltu'n fwy â phrosesau gwella ysgolion nag oeddent ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ymddiriedaeth a'r hyder sydd wedi datblygu rhwng yr arweinwyr ysgolion a'u partneriaid gwella, a chysondeb gwell partneriaid gwella. Hefyd, mae mwy o gydweithio rhwng ysgolion, a mwy o weithio mewn clwstwr a pherthynas fwy agored gyda'r awdurdod a CCD.

Caiff y prosesau i gefnogi gwella ysgolion eu cymhwyso'n gyson ar draws ysgolion yn yr awdurdod lleol. Mae arweinwyr ysgolion yn nodi eu blaenoriaethau gwella unigryw ac yn gweithio gyda'u partneriaid gwella i ystyried y camau gweithredu a'r cymorth sydd ei angen i wella. Mae partneriaid gwella yn darparu, yn hwyluso neu'n brocera cymorth perthnasol a dysgu proffesiynol ar gyfer eu hysgolion mewn agweddau fel llywodraethu, capasiti arwain neu ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Er enghraifft, mae dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon ar ddefnyddio gwrthrychau corfforol fel cownteri neu flociau cysylltu fel offer addysgu wedi arwain at welliannau ym medrau mathemategol disgyblion mewn ysgol gynradd. Yn ogystal â chymorth teilwredig, gall pob ysgol fanteisio ar gymorth ar gyfer blaenoriaethau cenedlaethol fel gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

Er bod y broses i gynnig a darparu cymorth yn gyson, ni chaiff y cynnig gan CCD ei dargedu'n ddigonol mewn ychydig o achosion yn unol ag anghenion unigol ysgolion, ac mae'r cyflymdra y caiff anghenion eu diwallu yn rhy araf o bryd i'w gilydd.

Mae datblygu'r dull 'Tîm o Amgylch yr Ysgol' yn darparu cyfleoedd adeiladol i swyddogion yr awdurdod lleol a CCD rannu gwybodaeth werthfawr yn ymwneud ag anghenion ysgolion unigol, a chytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon. Mae trefniadau i ddwysàu'r ymgysylltiad ag ysgolion sydd angen lefel uwch o gymorth yn briodol ac yn cynorthwyo ysgolion i ysgogi'r newidiadau angenrheidiol, ar y cyfan. Yn aml, caiff y gwaith hwn ei gychwyn gan y 'panel ysgolion sy'n achosi pryder', sy'n nodi pryderon yn rhagweithiol cyn gynted ag y bo modd, ac yn atal y rhain rhag cynyddu. Mae ysgolion sy'n peri pryder yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi gwella.

Mae ysgolion yn yr awdurdod lleol wedi croesawu cymorth gwerthfawr trwy gydol y pandemig, er enghraifft i ddatblygu eu cynigion dysgu cyfunol a rhannu syniadau am ddiwallu anghenion lles dysgwyr, staff a'r gymuned ehangach.

Megis dechrau datblygu y mae trefniadau i werthuso effaith ac ansawdd gwaith gwella ysgolion, ac mae diffyg trylwyredd a ffocws iddynt o bryd i'w gilydd.

**Pa mor dda y mae gwasanaethau'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd i leihau effaith tlodi ac anfantais ar ddysgu disgyblion?**

Mae gan yr awdurdod lleol ddyheadau uchel ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc, yn cynnwys y rhai sy'n wynebu heriau a achoswyd gan dlodi, fel yr amlinellir yn ei strategaeth 'Codi Dyheadau, Codi Safonau'. Megis dechrau cael ei rhoi ar waith y mae'r strategaeth hon, ac ni allwn roi sylwadau ar effaith gynaliadwy'r gwaith hwn.

Mae'r awdurdod yn gwerthfawrogi ei bartneriaethau â sefydliadau'r trydydd sector ac yn cydnabod eu rôl bwysig mewn cefnogi'r flaenoriaeth i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar blant a phobl ifanc. Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu rhwydwaith o wasanaethau sy'n gweithio gyda darparwyr addysg. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau statudol ac anstatudol a ddarperir gan yr awdurdod lleol, a gwasanaethau a ddarperir gan ystod o sefydliadau'r trydydd sector.

Caiff arweinyddiaeth a llywodraethu strategol darpariaeth aml-wasanaeth a phartneriaethau eu cynnig gan y Grŵp Strategol corfforaethol Mynd i'r Afael â Thlodi. Mae'r grŵp yn cynnwys penaethiaid gwasanaethau ar draws yr awdurdod lleol ac yn ystyried sut gellir defnyddio adnoddau mewn ffordd bwrpasol i fynd i'r afael ag anfantais trwy weithio ar draws cyfarwyddiaethau a phartneriaethau. Fodd bynnag, nid yw'r grŵp hwn yn darparu digon o gymorth i weithredu'r strategaeth 'Codi Dyheadau, Codi Safonau'.

Ar draws gwasanaethau, mae gan swyddogion yr awdurdod lleol drosolwg cynhwysfawr o anghenion dysgwyr bregus a'u teuluoedd. Ar lefel weithredol, mae arweinwyr gwasanaethau ar draws cyfarwyddiaethau yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r modd y mae eu darpariaeth yn rhan o ymateb nifer o wasanaethau i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar addysg. Mae'r Hyb Cymorth Cynnar yn bwynt cyswllt canolog defnyddiol i deuluoedd elwa ar gymorth, ac yn hwyluso gweithio amlasiantaethol effeithiol. Mae'r dull hwn yn osgoi dyblygu

gwasanaethau yn ddiangen ac yn helpu plant a'u teuluoedd i gael y cymorth cywir ar gyfer eu hanghenion mewn modd amserol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae atgyfeiriadau gan ysgolion i'r Hyb Cymorth Cynnar wedi dyblu. Mae arweinwyr ysgolion yn gwerthfawrogi'r ffyrdd y mae'r awdurdod wedi'i gwneud yn syml iddynt elwa ar gymorth ar gyfer disgyblion bregus gan ystod eang o wasanaethau, yn cynnwys Tîm o Amgylch y Teulu, Teuluoedd yn Gyntaf, y gwasanaeth ieuenctid a'r gwasanaeth rhianta.

Mae'r awdurdod yn darparu ystod o raglenni dysgu i'r teulu mewn partneriaeth ag Y Coleg Merthyr Tudful a Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful. Mae'r rhain wedi'u hanelu'n benodol at gynorthwyo teuluoedd mewn amgylchiadau heriol. Mae'r rhaglenni'n helpu rhieni i ddatblygu'r medrau a'r hyder i gefnogi dysgu eu plentyn, er enghraifft mewn datblygiad iaith gynnar a medrau rhifedd.

Mae partneriaethau yn y blynyddoedd cynnar yn hynod gryf, ac yn cynnwys partneriaethau gydag ymwelwyr iechyd i annog rhianta cyn-ysgol da, a gydag ysgolion cynradd i gefnogi cyfnod pontio hynod effeithiol o Dechrau'n Deg a lleoliadau nas cynhelir. Mae ymagwedd amlasiantaethol yn sicrhau bod cynlluniau priodol ar waith i gynorthwyo plant sydd angen cymorth ychwanegol pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol gynradd. Yn ychwanegol, mae dosbarth ymyrraeth gynnar, sydd wedi'i leoli yn un o'r ysgolion cynradd, yn cynnig darpariaeth deilwredig ar gyfer disgyblion unigol ar draws y sir nad ydynt yn barod i drosglwyddo o leoliadau'r blynyddoedd cynnar i ysgol gynradd, ac yn cynnig cyfleoedd i ymarferwyr y blynyddoedd cynnar ac athrawon ysgolion cynradd weithio gyda'i gilydd.

Dros gyfnod, mae'r awdurdod wedi cynorthwyo sefydliadau'r trydydd sector ag adnoddau a dysgu proffesiynol i'w helpu i feithrin eu capasiti ac ystod eu darpariaeth. Mae'r ymrwymiad hwn i bartneriaid wedi bod yn fuddiol gan iddo roi'r awdurdod mewn safle cryf i gyflwyno menter 'Haf o Hwyl' Llywodraeth Cymru yn gyflym ac yn llwyddiannus. Roedd modd i'r awdurdod ddefnyddio darpariaeth bresennol i greu rhaglen gyfoethog a difyr, a groesawyd gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Er bod partneriaid gwella CCD yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag ysgolion i adolygu ymagweddau mewn ysgolion at fynd i'r afael â thlodi, ni chaiff strategaeth yr awdurdod lleol i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais ei deall yn dda gan arweinwyr strategol CCD ar gyfer mynd i'r afael â thlodi.

**Pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol?**

Mae'r awdurdod lleol yn goruchwylio amrywiaeth o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth mewn ysgolion prif ffrwd a chymorth mwy arbenigol yn yr uned cyfeirio disgyblion, mewn lleoliadau y tu allan i'r sir a thrwy diwtora arbenigol. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn deall eu hysgolion yn dda, ac wedi sefydlu perthnasoedd sy'n cael eu meithrin ar sail ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod lleol i gefnogi anghenion y disgyblion yn dda, ym marn ysgolion.

Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud defnydd effeithiol o gyllid grant i hyrwyddo a chefnogi datblygu arferion wedi'u llywio gan ymchwil sy'n canolbwyntio ar ddatblygu lles dysgwyr. Mae hyn yn helpu meithrin capasiti ysgolion i nodi a bodloni anghenion plant a phobl ifanc, yn cynnwys y rhai ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Caiff y datblygiadau hyn eu croesawu gan ysgolion, ac mae'r awdurdod lleol yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o ba arferion sy'n cael eu mabwysiadu mewn ysgolion, ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw gwerthuso arferion yn systematig, yr effaith a gânt ar blant a phobl ifanc, a sut mae'r rhain yn llywio strategaeth yn y dyfodol, wedi'u datblygu'n ddigonol.

Yn ystod cyfnodau clo diweddar, archwiliodd yr awdurdod lleol ddarpariaeth sy'n cael ei threfnu gan ysgolion ar gyfer disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Hwylusodd yr awdurdod lleol gyfarfod rhithwir ar gyfer cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol. Rhannodd cydweithwyr ysgolion gydag eraill y dulliau a ddefnyddir i gynorthwyo dysgwyr a'u teuluoedd. Pan oedd yn briodol, rhoddodd swyddogion yr awdurdod lleol gyngor a chymorth ychwanegol i ysgolion yn ddiweddarach.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi arweiniad i ysgolion ar ddefnyddio amserlenni llai, gyda chydsyniad rhieni, ar gyfer dysgwyr sydd efallai wedi'i chael yn anodd mynychu amser llawn oherwydd gorbryder neu am resymau eraill. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae nifer y disgyblion ar amserlenni llai wedi cynyddu, gyda chynnydd cyflym yn arbennig mewn ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd yn ystod 2020-2021. Mae llawer o ddisgyblion yn parhau i fod ar amserlenni llai am fwy na phedair wythnos.

Yn hanesyddol, mae tua 70 o ddisgyblion y flwyddyn yn manteisio ar wersi arbennig am gyfnod. Caiff y ddarpariaeth hon naill ai ei chynnig yn uniongyrchol neu'i chomisiynu gan yr awdurdod lleol, a gallai disgyblion fanteisio ar y ddarpariaeth yn unigol neu fel rhan o grŵp o ddisgyblion mewn canolfan diwtora arbennig. Mae tua thraean o'r disgyblion hyn wedi bod yn cael gwersi arbennig am rhwng blwyddyn a dwy flynedd, ac mae gan bron bob un o'r disgyblion hyn angen addysgol arbennig, yn cynnwys anawsterau yn gysylltiedig ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol.

At ei gilydd, mae nifer uchel o ddisgyblion nad ydynt yn cael addysg amser llawn am gyfnodau amser estynedig. Nid yw'r awdurdod lleol yn monitro'n ddigon agos y defnydd o amserlenni llai, a'u heffaith ar gynnydd disgyblion. Ni all yr awdurdod lleol roi sicrwydd llawn fod defnydd estynedig o amserlenni llai yn briodol ar gyfer y disgyblion dan sylw.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod pwysigrwydd medrau lleferydd ac iaith tra datblygedig ymhlith plant a phobl ifanc. Mae swyddogion yn deall y cysylltiadau rhwng deilliannau addysgol a chymdeithasol a'r gyfran uchel, ar y cyfan, o blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol sydd ag anghenion lleferydd ac iaith. Mae'r awdurdod lleol wedi sgrinio plant cyn-ysgol yn systematig am sawl blwyddyn. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar y mae wedi dechrau defnyddio offeryn diagnostig i nodi oedi o ran lleferydd ac iaith disgyblion mewn ysgolion cynradd. Gyda chymorth priodol, fe wnaeth lleiafrif o ddisgyblion ag oedi welliannau o fewn chwe mis. Fe wnaeth lleiafrif o ddisgyblion ysgolion cynradd sy'n cael cymorth ar ôl diagnosis welliannau o fewn chwe mis. Mae cyfradd y cynnydd a wna disgyblion yn amrywio'n sylweddol yn ôl clwstwr ysgolion, a'r disgyblion hynny sy'n mynychu'r uned cyfeirio

disgyblion (UCD) sy'n gwneud y cynnydd gwaelaf. At ei gilydd, nid yw gwaith yr awdurdod lleol gyda phartneriaid i nodi a chefnogi anghenion lleferydd ac iaith disgyblion o oedran ysgol wedi bod yn ddigon amserol.

Mae'r UCD yn trefnu darpariaeth ar gyfer disgyblion oedran cynradd ac uwchradd ar draws dau safle. Bu heriau o ran sicrhau ymgysylltiad dysgwyr â dysgu o bell ac mewn mynychu'r UCD pan ailagorwyd hi ar ôl y cyfnodau clo. Llwyddodd staff yn yr UCD i gynnal cyswllt rheolaidd â rhieni. O ganlyniad i bryderon ynghylch lles plant a phobl ifanc, bu cynnydd cyflym yn nifer yr atgyfeiriadau a wnaed i wasanaethau plant. Yn ddiweddar, hwylusodd yr awdurdod lleol adolygiad cymheiriaid o'r UCD, a amlygodd yn ddefnyddiol gryfderau a meysydd i'w gwella fel ei gilydd. Mae'r awdurdod lleol yn derbyn bod gwella ansawdd yr adeiladau yn fater y mae angen iddo fynd i'r afael ag ef.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn defnyddio gwaith ieuenctid i gynorthwyo pobl ifanc?**

Mae'r awdurdod lleol yn gwerthfawrogi cyfraniad gwaith ieuenctid i'w bobl ifanc. Mae'r awdurdod yn gyson yn gwario mwy na'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ar wasanaethau gwaith ieuenctid fesul pen y boblogaeth. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn cynnig darpariaeth o ansawdd uchel mewn darpariaeth mynediad targedig ac agored fel ei gilydd. Mae gweithwyr ieuenctid yn cefnogi addysg, iechyd a lles pobl ifanc, ac mae ansawdd hyn yn aml yn uchel.

Mae gwaith y gwasanaeth ieuenctid yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflwyno'r strategaeth 'Codi Dyheadau, Codi Safonau'. Mae'r gwariant ar waith ieuenctid yn gymesur gyson ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae gan arweinwyr o fewn y gwasanaeth ieuenctid weledigaeth glir ar gyfer cyfeiriad strategol gwaith ieuenctid ym Merthyr Tudful. Caiff pobl ifanc eu cynnwys yn weithredol mewn datblygu gwasanaethau a gweithgareddau, ac ymgynghorir â nhw'n rheolaidd ar y ddarpariaeth.

Mewn lleoliadau addysg ffurfiol, mae gweithwyr ieuenctid yn cyflwyno rhaglenni sy'n galluogi disgyblion targedig i ennill cymwysterau a chynorthwyo'r rhan fwyaf ohonynt i symud ymlaen yn llwyddiannus i'r cam nesaf mewn addysg neu gyflogaeth. Mae nifer y bobl ifanc sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth ieuenctid uwchlaw cyfartaledd Cymru yn gyson. Yn ychwanegol, mae gweithwyr ieuenctid yn cynorthwyo disgyblion i gynyddu eu hunan-barch a'u hyder. Mae gweithwyr ieuenctid ac ysgolion yn cyfleu a chydlynu'r gweithgareddau hyn yn effeithiol. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi'r cyfraniad cadarnhaol a wna gwaith ieuenctid at addysg a lles disgyblion, ac yn ei ystyried yn agwedd annatod ar eu darpariaeth ar gyfer dysgu a chymorth bugeiliol.

Mae safon gwaith ieuenctid mynediad agored yn dda iawn. Darperir gweithgarwch clwb ieuenctid trwy fodel comisiynu gyda darparwyr gwirfoddol, ac mae wedi'i leoli yng nghanol cymunedau mewn cyfleusterau sydd ag offer da ynddynt. Mae'r gweithwyr ieuenctid yn ennyn diddordeb pobl ifanc mewn gweithgareddau sy'n cefnogi eu lles, addysg a'u datblygiad personol a chreadigol. Mae pobl ifanc yn ymgysylltu'n rhagweithiol â gweithwyr ieuenctid ar y stryd. Mae'r gweithwyr ieuenctid hyn yn adnabod y bobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau yn dda. Mae hyn yn eu helpu i nodi problemau, cynnig cyngor a darparu neu gyfeirio at gymorth perthnasol, os bydd angen.

Un o gryfderau nodedig y ddarpariaeth gwaith ieuenctid yw'r gweithio effeithiol mewn partneriaeth sy'n bodoli gydag adrannau eraill o fewn y Cyngor, yn ogystal â gydag amrywiaeth eang o asiantaethau allanol a sefydliadau'r sector gwirfoddol. Enghraifft o hyn yw'r Fforwm Partneriaeth Gwasanaeth Ieuenctid sy'n cael ei gadeirio gan y gwasanaeth ieuenctid, sy'n cynnwys asiantaethau oddi mewn i'r sector gwaith ieuenctid ac asiantaethau allanol. Mae partneriaeth y gwasanaeth ieuenctid gyda sefydliadau gwirfoddol yn ymestyn mynediad at ystod eang o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd difyr i gymysgu gyda phobl ifanc o'r tu allan i'w cymunedau, a chymryd rhan mewn gweithgareddau gwerthfawr fel datblygiad chwaraeon, hwylio, mynegiant artistig a gwaith grymuso gyda merched.

Darparodd gweithwyr ieuenctid gymorth gwerthfawr i bobl ifanc yn ystod y cyfnodau clo cenedlaethol. Galluogodd eu gwybodaeth am bobl ifanc a'u cymunedau iddynt gynorthwyo gwasanaethau addysg ffurfiol a darparu gwasanaethau hanfodol i gynorthwyo pobl ifanc, yn enwedig y rhai a oedd yn ei chael yn anodd neu oedd ag amgylchiadau heriol gartref. Mae'r gwasanaeth ieuenctid wedi parhau i ddarparu cymorth cryf ar ôl codi cyfyngiadau'r cyfnodau clo. Er enghraifft, adeg y Nadolig 2021, arhosodd un ganolfan ieuenctid yn agored tan Noswyl Nadolig i ddarparu gweithgareddau i godi calonnau cymunedau a oedd yn ddigalon oherwydd y pandemig.

Datblygodd y gwasanaeth ieuenctid gynnig gwaith ieuenctid digidol yn ystod y cyfnodau clo. Er enghraifft, cynhaliodd gweithwyr ieuenctid weithgareddau buddiol ar-lein, yn cynnwys cwisiau, podlediadau a dosbarthiadau cadw'n heini, a fynychwyd gan bobl ifanc yn ogystal â'u teuluoedd mewn rhai achosion. Amlygodd hyn werth gwaith ieuenctid i gymunedau cyfan. Hefyd, rhoddodd fewnwelediad defnyddiol i weithwyr ieuenctid ar fywydau pobl ifanc, yn ogystal â chreu cysylltiadau a pherthnasoedd gwerthfawr gyda'r teuluoedd hynny. Mae'r cynnig digidol yn cynnwys enghreifftiau arloesol fel defnyddio darpariaeth hybrid, ble gall pobl ifanc gymryd rhan wyneb yn wyneb neu ar-lein ar yr un pryd mewn gweithgareddau fel ymarferion darllen mapiau neu wersi gitâr. Mae timau ar y stryd yn defnyddio ymgysylltu ar-lein yn llwyddiannus i gynorthwyo pobl ifanc yn ystod tywydd gwael. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn cydnabod yr angen i werthuso, mireinio a chydlynu ei gynnig digidol i rannu arfer dda a sicrhau cysondeb ar draws ei ddarpariaeth.

Mae'r Fforwm Ieuenctid Ledled Merthyr Tudful a'r cabinet ieuenctid yn rhoi llais gwerthfawr i bobl ifanc o fewn y gymuned. Mae'r fforwm yn mynd i'r afael â materion pwysig ar gyfer pobl ifanc fel tlodi mislif, a sicrhau bod eitemau ar gyfer y mislif yn cael eu danfon mewn blychau lles yn ystod y cyfnodau clo. Cyfrannodd y cabinet ieuenctid yn bwrpasol at drafodaethau ar effeithiolrwydd trefniadau dysgu ar-lein gydag ysgolion yn ystod cyfnodau clo, yn ogystal â datblygu strategaeth 'Codi Dyheadau, Codi Safonau'. Hyrwyddodd y cabinet ymgyrch cenedlaethol 'Gwneud eich Marc' i annog pobl ifanc i ymgysylltu â phrosesau democrataidd. Cyfrannodd hyn at y ffaith mai Merthyr Tudful oedd â'r gyfradd bleidleisio uchaf o bell ffordd yng Nghymru o bobl ifanc yn pleidleisio yn ymgynghoriad cenedlaethol diweddaraf Senedd Ieuenctid y DU ar faterion yn effeithio ar bobl ifanc, ac roedd ymhlith y cyfraddau uchaf yn y DU.

Mae gweithwyr ieuenctid sy'n siarad Cymraeg yn ymgysylltu'n dda â phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg ac yn trefnu gweithgareddau ysgogol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Tarfodd y pandemig ar fentrau arloesol wedi'u hanelu at ddatblygu medrau

Cymraeg pobl ifanc, ac mae cynyddu'r defnydd o'r iaith yn faes i'w ddatblygu yng nghynllun strategol y gwasanaeth.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer addysg ym Merthyr Tudful. Caiff eu blaenoriaethau ar gyfer addysg eu mynegi'n glir ym mhrosesau cynllunio'r awdurdod lleol, gan ddechrau â chynllun lles 'Ffocws ar y Dyfodol'. Caiff y blaenoriaethau hyn eu deall yn dda, o fewn yr awdurdod lleol a chan bartneriaid ar draws y gymuned.

Yn 2019, gofynnodd yr awdurdod lleol yn ffurfiol am gymorth gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â materion ariannol a phryderon am arweinyddiaeth a llywodraethu. Sefydlwyd Bwrdd Gwella a Sicrwydd gan Lywodraeth Cymru, ac yn dilyn asesiad cyflym o ddarpariaeth yr awdurdod lleol, cafodd y gwasanaeth addysg ei gynnwys fel maes y byddai'r bwrdd yn ei gefnogi. Yn 2020, cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r awdurdod lleol, sy'n amlinellu'r gwaith y mae'r awdurdod lleol yn ei wneud wrth iddo symud trwy bandemig COVID-19, a thu hwnt.

Roedd y Bwrdd Gwella a Sicrwydd ar waith o hyd adeg yr arolygiad hwn. Mae uwch arweinwyr wedi gwerthuso'r cynnydd maent wedi'i wneud yn erbyn naw prawf allweddol Llywodraeth Cymru i'w helpu i ddeall eu gallu i gynnal a pharhau â'r gwaith gwella, yn cynnwys y gwaith i wella gwasanaethau addysg. Mae arweinwyr yn cydnabod y cynnydd a wnaed, a'r gwaith sydd i'w wneud o hyd gyda'r gwaith trawsnewid a gwella. Maent wedi nodi'r camau gweithredu sydd angen eu cymryd o hyd, a cherrig milltir allweddol y mae angen eu cyflawni er mwyn mynd i'r afael yn llawn â'r meini prawf a amlinellir yn y profion allweddol. Mae ganddynt gynlluniau i sicrhau ansawdd gwaith y gwasanaeth addysg yn annibynnol ar y bwrdd. Mae hyn yn cynnwys sefydlu bwrdd mewnol i efelychu gwaith rheoli perfformiad y Bwrdd Gwella a Sicrwydd.

Mae'r prif weithredwr a'r cyfarwyddwr addysg wedi gweithio'n dda yn ystod y cyfnod ers sefydlu'r Bwrdd i ysgogi newid a gwelliant mewn gwasanaethau addysg. Mae'r cyfarwyddwr addysg wedi meithrin perthnasoedd gweithio da gydag arweinwyr ysgolion. Maent yn teimlo ei bod yn gofyn eu barn, ac yn gwrando arnynt, ac yn ennyn eu diddordeb yn dda mewn datblygu strategaethau a gwasanaethau. Yn 2021, ailstrwythurwyd y gwasanaeth addysg i gynyddu ei gapasiti, trwy benodi dau bennaeth gwasanaeth newydd. Mae swydd y prif swyddog ar gyfer dysgu, ynghyd â phrif swyddogion eraill, wedi cael eu huwchraddio i rôl cyfarwyddwr, yn unol â gweledigaeth strategol yr awdurdod lleol.

Mae'r cyfarwyddwr wedi arwain gwaith ar strategaeth 'Codi Dyheadau, Codi Safonau' y gwasanaeth addysg, sy'n darparu uchelgais glir ar gyfer addysg ym Merthyr Tudful. Datblygwyd y strategaeth hon yn dilyn ymgysylltu cryf â rhanddeiliaid, yn cynnwys penaethiaid, llywodraethwyr, Consortiwm Canolbarth y De (CCD) ac ystod o bartneriaid mewn sefydliadau statudol a gwirfoddol. Mae'n ddyddiau cynnar o hyd o ran rhoi'r strategaeth ar waith.

Trwy gydol pandemig COVID-19, cefnogodd arweinwyr addysg ysgolion yn bwrpasol. Rhoesant gymorth cryf i ddisgyblion bregus a'r rhai a oedd yn ei chael yn anodd ymgysylltu â dysgu trwy'r cyfnod y darparwyd dysgu o bell. Mae gwaith yr awdurdod

lleol yn ystod y pandemig wedi cryfhau perthnasoedd â'r gymuned ac wedi rhoi dealltwriaeth well i swyddogion yn y gwasanaeth addysg o'r heriau sy'n wynebu dysgwyr a'u teuluoedd. Mae hyn yn helpu sicrhau bod cymorth ac ymyrraeth briodol yn cael eu darparu i bobl ifanc yn y sir.

Mae swyddogion wedi datblygu cynllun gweithredu o'u strategaeth Gymraeg a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg, a gwella safonau Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Nod y strategaeth yw creu amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn rhan fwy o fywyd beunyddiol i bobl ym Merthyr Tudful – 'amgylchedd shwmae'. Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno'r fersiwn dros dro o'i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2032 i Lywodraeth Cymru. Mae ynddo gynlluniau i agor trydedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg fel egin ysgol ym mis Medi 2023. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o'r ddwy ysgol cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf os ydynt yn dymuno parhau â'u haddysg yn Gymraeg. Mae'r awdurdod yn bwriadu trafod y potensial am gapasiti ychwanegol yn yr ysgol hon gyda Rhondda Cynon Taf, ac yn bwriadu cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer ei ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ei hun hefyd. Er nad oes unrhyw gynlluniau clir ar hyn o bryd, mae'r awdurdod yn cydnabod bod rhaid iddo sicrhau bod digon o leoedd ar gyfer y cynnydd cynlluniedig o ran nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd fydd yn symud ymlaen i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Mae arweinwyr yn cydnabod bod yna ychydig o faterion hirsefydledig sydd angen eu gwella. Er enghraifft, mae lefelau presenoldeb disgyblion wedi bod yn wan yn hanesyddol. Darperir adroddiadau gwerth chweil a manwl i bwyllgor craffu'r Gwasanaethau Dysgu ac Addysg Llywodraeth Leol am gryfderau a meysydd i'w datblygu'r gyfarwyddiaeth addysg, ynghyd ag adroddiadau cynnydd ac adroddiadau am faterion allweddol perthnasol eraill. Nodwyd bod angen gwella'r pwyllgor a galluoedd aelodau etholedig i ddarparu her briodol yn arolygiad diwethaf Estyn, ac mewn adroddiad mwy diweddar gan Archwilio Cymru. Mae'r Cyngor yn parhau i ymateb i wendidau o ran craffu, ac wedi gwneud gwelliannau. Mae swyddogion a'r cadeirydd craffu yn ymwybodol o'r materion hyn, ac mae cryfhau trefniadau craffu yn amcan yn y strategaeth 'Codi Dyheadau, Codi Safonau'. Ar hyn o bryd, nid yw aelodau etholedig o fewn y pwyllgor yn rhoi her ddigon cadarn i'r aelod Cabinet neu swyddogion er mwyn sicrhau atebolrwydd digonol neu hyrwyddo gwelliant.

Mae'r awdurdod yn rhoi gwerth clir ar hunanwerthuso'i wasanaethau yn agored, yn rheolaidd ac yn feirniadol, sy'n galluogi uwch arweinwyr i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn y rhan fwyaf o feysydd. Ceir ymrwymiad corfforaethol cryf i herio'r wybodaeth a'r dystiolaeth sy'n deillio o hunanwerthuso i sicrhau dilysrwydd. Er enghraifft, mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio sesiynau 'diwrnod i ffwrdd' penodol i ganolbwyntio ar faterion sy'n dod i'r amlwg, a chadarnhau eu barnau am ansawdd y ddarpariaeth a'r gwasanaethau. Mae cyfleoedd buddiol i randdeiliaid addysg gyfrannu eu barnau hefyd a chefnogi a herio cynnydd yr awdurdod yn erbyn ei uchelgeisiau yn y Panel Partneriaeth Addysg. Fodd bynnag, mewn ychydig o feysydd, mae gwerthuso arferion yn systematig, yr effaith a gânt ar blant a phobl ifanc a sut mae'r rhain yn llywio strategaeth yn y dyfodol, yn gyfyngedig, er enghraifft o ran y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth maent wedi'i chael o hunanwerthuso i osod nodau a blaenoriaethau addas a llywio cynllunio gwelliant pellach. Er enghraifft, mae'r gyfarwyddiaeth wedi gweithredu'n gyflym ac yn bendant i addasu ei blaenoriaethau gwella allweddol, fel y rhai yn strategaeth 'Codi Dyheadau, Codi Safonau', i amlinellu sut mae'n bwriadu adfer o'r pandemig. Mae cysondeb a chydlyniaeth glir rhwng cynlluniau gwella o fewn yr awdurdod, o'r cynllun corfforaethol trwodd i gynlluniau lefel gwasanaeth a mwyafrif y cynlluniau tîm.

At ei gilydd, mae uwch arweinwyr yn monitro cynnydd ac effaith blaenoriaethau a nodwyd ganddynt yn dda. Fodd bynnag, mae anghysondeb yn ansawdd meini prawf llwyddiant o fewn mwyafrif y cynlluniau gwella busnes ar lefel gwasanaeth, gyda meini prawf mesuradwy cyfyngedig yn cael eu nodi. Yn yr achosion dan sylw, mae hyn yn lleihau gallu swyddogion i fonitro a gwerthuso cynnydd. Mae'r gwelliannau diweddar yng ngallu'r awdurdod i rannu a defnyddio data o fewn adrannau addysg ac adrannau eraill wedi dechrau cryfhau gallu swyddogion i nodi tueddiadau a monitro perfformiad. Mae'r adolygiadau gwella perfformiad chwarterol a sefydlwyd yn ddiweddar, y mae'r tîm rheolwyr corfforaethol ac aelodau'r cabinet yn eu mynychu, yn darparu cyfleoedd defnyddiol i uwch arweinwyr werthuso eu cynnydd yn erbyn eu hamcanion lles a'u blaenoriaethau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae diffyg meini prawf llwyddiant trylwyr ym mwyafrif y cynlluniau gwella busnes, a gwerthusiad manwl o rai o feysydd gwaith y gyfarwyddiaeth, ynghyd â gwendidau yn ansawdd y craffu, yn rhwystro gallu'r awdurdod i fonitro a gwerthuso eu cynnydd yn llawn tuag at eu huchelgeisiau lefel uwch.

Mae gan yr awdurdod lleol ffocws corfforaethol cryf ar ddatblygu staff trwy weithgareddau dysgu proffesiynol. Caiff y gweithgareddau hyn eu nodi ar y cyd trwy gyfarfodydd arfarnu rhwng staff a'u rheolwyr llinell. Mae rheolwyr llinell yn sicrhau bod unrhyw ddysgu proffesiynol a nodwyd yn berthnasol i rôl y cyflogai, yn cynnwys diddordebau personol ac yn gydnaws â blaenoriaethau strategol. Ystyrir effaith y dysgu proffesiynol a wneir yn ystod cyfarfodydd dilynol gyda rheolwyr llinell.

Mae disgwyl i bob un o'r staff gwblhau ystod o hyfforddiant gorfodol, er enghraifft ar ddiogelu, seiberddiogelwch a Chymraeg i ddechreuwyr newydd. Wrth i swyddogion ddatblygu o fewn yr adran, maent yn ymwneud yn gynyddol â grwpiau rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi eu rôl, rhannu arfer dda a chynyddu eu hymwybyddiaeth o strategaethau a blaenoriaethau ehangach. Er enghraifft, mae swyddogion yn cymryd rhan mewn grwpiau sy'n ymwneud â chymorth i lywodraethwyr, presenoldeb, gwaharddiadau, a phlant sy'n derbyn gofal.

Nid oes gan yr awdurdod drosolwg strategol cynhwysfawr o ddysgu proffesiynol ym Merthyr Tudful. Mae hyn yn golygu na allant fonitro ystod lawn y gweithgareddau dysgu proffesiynol a'u heffaith. Mae'r awdurdod wedi cydnabod y diffyg hwn, ac mae wrthi'n mynd i'r afael ag ef trwy roi system rheoli perfformiad electronig ar waith. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei datblygu y mae'r system hon.

Rhoddir blaenoriaeth gorfforaethol uchel i ddiogelu'r holl blant a phobl ifanc, ac ystyrir bod gan bawb gyfrifoldeb am hyn. Mae holl staff yr awdurdod lleol a'r rhan fwyaf o'r aelodau etholedig wedi mynychu hyfforddiant diogelu priodol. Mae'r grŵp cyfeirio diogelu corfforaethol yn cynnwys cynrychiolaeth o ystod eang o adrannau'r awdurdod lleol, yn ogystal ag aelodau etholedig. Mae'r grŵp yn darparu pwynt canolog priodol i gydlynu ymateb yr awdurdod lleol i bryderon perthnasol ynghylch diogelu. Mae'r grŵp

yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion lleol a chytuno ar eu hymateb. Yn ychwanegol, mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu grwpiau amlasiantaethol eraill hefyd i helpu diogelu pobl ifanc. Er enghraifft, mae'r grŵp amlasiantaethol camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ystyried effeithiolrwydd y cymorth ar gyfer pobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o gamfanteisio.

Mae gan yr awdurdod lleol arferion recriwtio mwy diogel ar gyfer pob aelod o staff. Mae swyddogion Adnoddau Dynol yn darparu cymorth buddiol i ysgolion gynnal gwiriadau cyn-penodi trylwyr ar gyfer staff a gwirfoddolwyr.

Mae swyddogion, yn enwedig y rheolwr diogelu arweiniol ar gyfer addysg, yn darparu lefel uchel o gymorth ac arweiniad i ysgolion. Mae hyn yn cynnwys diweddariadau rheolaidd ar themâu perthnasol, yn cynnwys themâu ar ddelio â seiberfwlio a rheoli pryderon proffesiynol, er enghraifft. Mae'r holl leoliadau ac ysgolion nas cynhelir yn cyflwyno archwiliad diogelu blynyddol manwl i'r awdurdod lleol. Mae swyddogion yn gwerthuso pob un ohonynt, ac yn darparu adborth ysgrifenedig, ac arweiniad a chymorth teilwredig ar gyfer darparwyr unigol, os yw'n briodol. Mae swyddogion addysg yn casglu gwybodaeth yn rheolaidd am achosion o fwlio mewn ysgolion ac yn dadansoddi'r data i bennu tueddiadau.

Mae dyraniad adnoddau'r awdurdod lleol i'w wasanaeth addysg a'i ysgolion yn adlewyrchu'r flaenoriaeth uchel a roddir i addysg yn y cynllun corfforaethol, sef y cynllun 'Adfer, Trawsnewid a Gwella' a strategaeth 'Codi Dyheadau, Codi Safonau'. Mae cyfran y cyllid a ddyrennir i addysg yn 2021-2022 yn uwch na'r Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion, ac mae'r awdurdod wedi dyrannu un o'r canrannau uchaf o gyllid yn gyson i addysg yng Nghymru am flynyddoedd lawer.

Mae'r awdurdod lleol wedi cynyddu a diogelu ei gyllideb addysg mewn cyfnod pan mae pwysau cyllidebol ar draws yr awdurdod, ac, ar gyfer 2021-2022, mae wedi cynyddu ei gyllideb addysg uwchlaw cyfartaledd Cymru. Mae'r awdurdod wedi cynyddu capasiti staff yn ei wasanaethau, yn cynnwys penodi uwch swyddogion sy'n gyfrifol am gynhwysiant ac am gyflawniad a lles. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod yn rhagamcanu diffyg o £218,000 yn ei gyllideb addysg, yn bennaf o ganlyniad i gost lleoliadau y tu allan i'r sir.

Mae'r awdurdod lleol yn categoreiddio risg ariannol pob ysgol yn flynyddol, ac mae tair ysgol yn peri risg uchel ar hyn o bryd. Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r system rhybudd cynnar ddefnyddiol hon i nodi ysgolion ar gyfer cymorth i fynd i'r afael â materion ariannol sy'n dod i'r amlwg.

At ei gilydd, cynyddodd balansau yn 2020-2021 ac roedd gan bob ysgol arian dros ben, gyda chymorth cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Nid yw unrhyw ysgolion yn rhagweld diffyg ar gyfer 2021-2022, mae un ysgol yn rhagweld diffyg yn 2022-2023, a phum ysgol yn rhagweld diffyg yn 2023-2024. Mae gan yr awdurdod lleol drefniadau addas i fonitro'r sefyllfaoedd hyn, ac mae'n cynorthwyo'r ysgolion i gyflawni eu cynlluniau ariannol tymor canolig.

Adolygodd yr awdurdod lleol y fformiwla cyllid ar gyfer ysgolion yn 2020-2021 ar y cyd â'r Fforwm Cyllideb Ysgolion, sy'n cynnwys cynrychiolwyr sy'n benaethiaid. Ceir cyfnod pontio o dair blynedd i ysgolion gynllunio ar gyfer unrhyw newidiadau yn deillio o roi'r fformiwla cyllid newydd ar waith. Mae gan yr awdurdod a'r Fforwm

Cyllideb Ysgolion berthynas agored ac adeiladol. Mae’r Fforwm Cyllideb Ysgolion yn ymgymryd â’r broses gyllideb flynyddol a chynllunio ariannol yr awdurdod yn y tymor canolig.

Mae ystod gynhwysfawr o gytundebau lefel gwasanaeth (CLGau) ar gyfer gwasanaethau dewisol ar gael i ysgolion, ac mae lefelau uchel ohonynt yn manteisio ar y rhain, ar y cyfan. Caiff CLGau eu hadolygu bob blwyddyn, a graddiwyd bod y Fforwm Cyllideb Ysgolion, a phob un o’r CLGau, yn dda neu’n rhagorol. Caiff y Fforwm Cyllideb Ysgolion gyfle i gyfarfod â’r gwasanaethau i drafod unrhyw feysydd pryder, ond nid yw pob CLG yn gweddu i ofynion pob ysgol, ac mae rhai ysgolion yn ceisio dod i drefniant arall gyda darparwr gwahanol.

Yn ddiweddar, mae’r awdurdod lleol wedi cwblhau ei brosiectau ysgolion yr 21ain ganrif Band A, ac mae ei raglen Band B, sy’n werth tua £56m i gyd, wedi dechrau. Mae’r awdurdod wrthi’n cynnal arolygon o gyflwr ei ysgolion i gael y ddealltwriaeth ddiweddaraf o’i ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw. Bydd hyn yn allweddol o ran helpu llywio ei gynllunio ariannol yn y tymor canolig.

Yn ei arolygiad blaenorol yn 2012, argymhellodd Estyn y dylai’r awdurdod ddatblygu a gweithredu systemau i farnu p’un a yw mentrau a gwasanaethau’n cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc, ac yn cynnig gwerth da am arian. Mae’r awdurdod wedi gwneud dadansoddiad lefel uchel o’i wariant a’i berfformiad mewn rhai meysydd allweddol, a sut mae’n cymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru. Hefyd, bu enghreifftiau ble mae’r awdurdod wedi gweithio gyda darparwyr gwasanaeth i adolygu lefel, ansawdd a chost gwasanaeth. Fodd bynnag, mae’r awdurdod yn cydnabod bod angen iddo gryfhau ei adolygiad parhaus o wasanaethau a ddarperir gan Gonsortiwm Canolbarth y De i sicrhau eu bod yn ychwanegu gwerth.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, yn seiliedig ar hunanwerthusiad yr awdurdod, cynlluniau strategol a data perthnasol a ddelir gan Estyn
- yn dadansoddi'r canlyniadau o holiaduron agored, yn cynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgolion, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag ystod o bartneriaid perthnasol i wasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinydd y Cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, yn cynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, yn cynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor neu'r pwyllgor craffu, gwybodaeth yn ymwneud â diogelu dysgwyr, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol a ddelir gan Estyn

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- yn darparu copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol i nodi unrhyw bryderon â chywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau ble mae angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.